

## **Cyngor Cymuned Llanelian (265)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mai 12, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Hefina Williams Glenys Jones	T Elfyn Hughes Helen Hughes	Thomas D Jones Cyng. Wil Hughes	John Griffiths Cyng. Aled M Jones
Ymddiheuriadau:	Dafydd Griffiths	Cyng. Richard Jones		

### **1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams a chroesawyd pawb i'r cyfarfod**

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddo gan David Herbert. Derbyniwyd ei ymddiswyddiad a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu ato i ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor a'r gymuned. Gofynnwyd i'r Clerc hefyd gysylltu â'r Cyngor Sir i gael hysbysebu sedd wag.

CET  
CET

### **2 Datgan Diddordeb**

Cyng. Wil Hughes - materion cynllunio

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, eilio TD Jones.

### **4 Materion yn Codi**

4.1 Maes Llwyfo – gofynnwyd i le oedd y goliau wedi eu symud. Bydd angen gofyn i Carol Whitaker neu Gordon Hayes. Cafwyd wybod gan Wil Hughes ei fod wedi pasio gwybodaeth ymlaen i PCSO Katy Hughes am wahanol grantiau oedd ar gael gan y Cyngor Sir. Diolchwyd iddo am ei gefnogaeth.

CET

4.2 Arwyddion Baw Cwn - cafwyd wybod bod arwyddion wedi eu gosod ger mynwent Bosra a Charmel, a bydd arwydd i'w gosod ger mynwent Eilian cyn gynted â phosib.

WTH

4.3 Cae Chwarae - Fe gadarnhaodd y Clerc bod arolygon blynyddol ROSPA i gymryd lle ym Mehefin. Deallwyd bod GL Jones wedi bod i dynnu'r stwmp oedd ar ôl o'r see-saw er diogelwch. Cafwyd wybod bod grantiau digonol wedi eu sicrhau bellach i dalu am yr arwyneb diogelwch ac am see-saw newydd, Mae'r Clerc wedi eu harchebu fel bod modd eu gosod cyn gynted â phosib. Cadarnhawyd mai gwyrdd dylai'r arwyneb fod, ac y byddai gofyn i Playquest ddod a skip eu hunain er mwyn symud unrhyw wastraff.

CET

4.4 Mynwent Llanelian - Darllenwyd e-bost o ddiolch gan Mrs Mair Morris yn dilyn diolch cyhoeddus iddi am ei rhodd yn rhifyn diweddaraf Yr Arwydd. Mae Mr Roy Ashworth wedi adnabod un garreg fedd sydd angen sylw. Mae'r Clerc eisoes mewn cysylltiad â Mr Huw Roberts. Fe gadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus a'r map yn dangos ffiniau'r fynwent gan y cyfreithiwr (ar gyfer cofrestru'r tir).

CET

4.5 Tir Shell, Rhosgoch - Cafwyd copi o'r llythyr anfonwyd at Richard Parry Jones ar ran Cyngorau Cymuned Gogledd Môn, a darllenwyd ei ymateb iddo. Mae'n debyg bod y mater wedi ei drafod gan yr ymddiriedolwyr ond nid oes llawer o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd.

4.6 Ailgylchu - Deallwyd gan y Cyngor Sir nad ydynt bellach yn gwneud unrhyw daliadau i Gyngorau Cymuned ar gyfer banciau ailgylchu erbyn hyn.

### **5 Cynllunio**

5.1 Ceisiadau –

Trafodwyd cais Cynllunio Fferm Wynt Rhyd y Groes. Er nad oedd y datblygiad o fewn ffiniau'r Cyngor Cymuned teimlwyd y byddai yn cael cryn effaith ar Ogledd Môn a bod angen cydweithio a Chynghorau eraill i ddiogelu ein hardal. Cytuno y dylai'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Tref Amlwch a Chyngor Cymuned Llanbadrig i gynnig cefnogaeth y Cyngor.

CET

5.2 Penderfyniadau -

Cafwyd wybod bod y ceisiadau canlynol wedi eu caniatáu -

- Hafod y Grug, Cerrigman
- Plot 1 Maes y Groes, Nebo
- Plot 2 Maes y Groes, Nebo
- Rhoswen, Gadfa
- Plot 2 Cerrigman

### **6 Materion Ariannol**

6.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
Viking Direct - £160.16

GL Jones - £120.00  
Playquest - £1888.80

Cafwyd wybod bod ad-daliad taw 2014/15 wedi ei dalu erbyn hyn yn ogystal â thaliad Cyntaf y briseb.

- 6.2 Cais am arian - daw cais gan Gymdeithas y Leinws am gefnogaeth ariannol. Cytuno dylid ei drafod pan fydd mwy o aelodau yn bresennol.
- 7 Yswiriant**  
Derbyniwyd prisiau gan Zurich ac Aon am wahanol opsiynau i adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor. Ar ôl cymharu'r polisïau, cytunwyd aros gyda Zurich am bris o £252.26. CET
- 8 Llithrfa**  
Dosbarthwyd copiâu o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Ebrill 22 er gwybodaeth. Fe esboniodd y Clerc nad oedd cynrychiolwyr y Cyngor Sir wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod, ac er eu bod wedi derbyn y cofnodion, nid oedd ffurflenni na goriadau wedi eu paratoi ganddynt i'w dosbarthu dros y penwythnos. Bydd Aled M Jones yn edrych i mewn i'r mater. AMJ
- 9 Ymgynghoriadau ar Dreth Cyngor**  
Deallwyd y byddai'r Cyngor Sir wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Cytuno cynnwys yr eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf, ac os oes unrhyw un am wneud sylw yna bydd cyfle i'w trafod ac ymateb pryd hynny. CET
- 10 Gohebiaeth**
- 10.1 Enwau Llefydd - cafwyd llythyr yn nodi pryder bod enwau hen dai ac adeiladau yn cael eu newid o'r Gymraeg i'r Saesneg ac felly yn cael effaith ar hanes a threftadaeth yr ardal. Cytuno dylai'r Cyngor ysgrifennu at Stad Llys Dulas a gofyn iddynt a fyddent yn fodlon cadw'r hen enwau traddodiadol neu eu cynnwys ochr yn ochr ar rhai newydd. CET
- 10.2 Gwybodaeth gan yr Ombwdsmon yn cyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau. Mae'r canllawiau i'w lawr-lwytho oddi ar wefan yr Ombwdsmon.
- 10.3 Gwybodaeth am sesiynau agored Horizon yn y gymuned (Llangefni 18/5, Cemaes 22/6, Amlwch 20/7)
- 10.4 Rhifyn diweddaraf Clerks and Councils Direct
- 10.5 Rhaglen Eisteddfod Pobl Hyn Môn
- 10.6 Rhifyn diweddaraf Dan Do Môn
- 10.7 Rhifyn diweddaraf Y Llais
- 11 Unrhyw Fater Arall**
- 11.1 Hoffai'r aelodau ddymuno'n dda i Dafydd Griffiths sydd ar hyn o bryd yn hwylio adref wedi prynu cwch.
- 11.2 Deallwyd gan Aled M Jones ei fod wedi bod mewn cysylltiad â'r adran gynllunio yn dilyn y cwynion diweddar.
- 12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 9/6/2015**  
Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.45 o'r gloch.